

CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn TRWY CYFRWNG FIDEO, Dydd Mawrth, 27 Ebrill 2021 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

Arsylwyr: Y Cyngorwyr Meirick Davies, Hugh Irving a Gwyneth Kensler

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cymunedau (NS) ac Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Cyllid ac Eiddo (SG) a Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol (TW); Swyddog Arweiniol - Rheoli Asedau Strategol (TB); Rheolwr Prosiect (RV); Rheolwr Prosiect (PC), a Gweinyddwyr y Pwyllgor (KEJ a SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2021 .

Materion yn Codi – Tudalen 9, Eitem 6 Canolfan Asesu Breswyl Is Ranbarthol ar gyfer Plant – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd Meirick Davies, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod diweddariad wedi ei ddarparu ynglŷn â'r drwydded moch daear, y cytunodd ei gylchredeg eto.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2021 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

5 ADEILADAU'R FRENHINES Y RHYL - CAFFAEL CAM 1

Cyflwynodd Hugh Evans a Julian Thompson-Hill yr adroddiad ar y cyd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y strategaeth gaffael i benodi prif gontractwr ar gyfer Cam 1 datblygiad Adeiladau'r Frenhines, Y Rhyl.

Darparwyd peth gwybodaeth gefndir mewn perthynas â chaffael y safle a chynlluniau ar gyfer ei ailddatblygu (dros nifer o gamau/cyfnodau) a ystyriwyd yn hollbwysig i adfywiad a llwyddiant economaidd yr ardal yn y dyfodol. Roedd y gwaith o ddymchwel y safle yn mynd rhagddo'n dda ac roedd angen proses gaffael ar gyfer y cam nesaf er mwyn penodi prif gontractwr ar gyfer cam 1 y datblygiad. Ychydig o dan £11 miliwn oedd yr amcangyfrif o gost cyffredinol cyflenwi cam 1, a dim ond o safbwynt caffael ar gyfer y cam adeiladu oedd yr adroddiad yn berthnasol, gydag amcangyfrif o £4 miliwn ar gyfer gwerth y contract. Roedd manylion yr amcangyfrifon o gost wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, yn ogystal ag amserlenni cyflawni er mwyn cyrraedd terfynau amser cyllid grant. Cynigiwyd defnyddio Lot 3 Partneriaeth Adeiladu Goledd Cymru a cheisiwyd awdurdodiad i gychwyn caffael gan ddefnyddio'r fethodoleg honno gan ddod ag adroddiad yn ôl i'r Cabinet ar y penderfyniad terfynol ar gontractwr a gymeradwywyd.

Ailadroddodd y Cynghorydd Meirick Davies bwysigrwydd cadw cymaint o'r elfennau pensaernïol / hanesyddol o'r adeiladau â phosib a rhoddodd yr Arweinydd sicrwydd o ran hynny, gan nodi fod swyddogion yn cadw briff gwyllo.

PENDERFYNWYD fod y Cabinet yn cymeradwyo'r strategaeth gaffael i benodi prif gontractwr ar gyfer Cam 1 datblygiad Adeiladau'r Frenhines, Y Rhyl.

6 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb fel yr amlinellir isod -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2020/21 oedd £208.302 miliwn (£198.538 miliwn yn 2019/20).
- rhagwelwyd tanwariant o £2.318miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaethau a chyllidebau corfforaethol
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r rhagdybiaethau yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol.
- amlinellwyd effaith ariannol y coronafeirws a'r sefyllfa o ran ceisiadau i Lywodraeth Cymru hyd yma, yn ogystal â chyllid grantiau eraill gan Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â Covid.
- manylion o arbedion ac arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol o £4.448 miliwn y cytunwyd arno, gan gynnwys cynnwys arbedion corfforaethol sy'n ymwneud ag adolygiad actiwaraid teirblwydd o Gronfa Bensynau Clwyd (£2 miliwn); 1% arbedion ysgolion (£0.692 miliwn); arbedion gwasanaeth (£1.756 miliwn).
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol am y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd gymeradwyo sefydlu dwy gronfa benodol i helpu i ariannu (1) gwaith fel rhan o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan, a (2) chostau cychwynnol prosiect sy'n ymwneud â'r Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Thompson-Hill at gau cyfrifon 2020/21 a allai olygu newidiadau i'r ffigyrau cyn yr adroddiad ar y sefyllfa derfynol ym mis Mehefin. Arweiniodd y Cabinet drwy elfennau amrywiol yr adroddiad gan gynnwys ffynonellau cyllido Llywodraeth Cymru gydag oddeutu £7.4 wedi ei dderbyn hyd yma yn erbyn hawliadau gwariant a derbyn hawliad colli incwm Chwarter 4 oedd yn gyfanswm o oddeutu £11.2 miliwn am y flwyddyn ynghyd â'r effaith ar y tanwariant a ragwelwyd o'r mis diwethaf. Amlygwyd symudiadau gwasanaeth hefyd gyda'r symudiadau mwyaf yn ymwneud â'r Gwasanaeth Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol, a Chyllid ac Eiddo. Amlygodd y Pennaeth Cyllid hefyd y lefel uwch o ansicrwydd yn ystod y cyfnod hwn yn y flwyddyn ariannol gyda'r amrywiol ffrydiau cyllid yr oedd angen cyfrif amdanynt yn briodol, a allai newid y sefyllfa ariannol rhwng rŵan a'r sefyllfa ariannol derfynol.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- cyfeiriwyd at drafodaethau blaenorol o safbwynt y rhesymau y tu nol i'r rhai elfennau o'r hawliadau na chafwyd eu caniatáu ac roedd proses lle gellid trafod yr hawliadau hynny gydag adrannau Llywodraeth Cymru; roedd rhai o'r elfennau hynny na chaniatawyd yn wreiddiol bellach wedi eu caniatáu mewn hawliadau mwy diweddar gan fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith pellach i elfennau unigol ac / neu roedd cyllid pellach wedi dod ar gael.
- doedd dim posibilrwydd o gymryd unrhyw arian grant yn ôl o wariant penodol na cholled incwm oedd wedi ei asesu wrth i'r hawliadau hynny gael eu prosesu; fodd bynnag fel gyda phob grant byddai proses archwilio a gallai elfennau gael eu nodi fel rhan o'r broses honno
- tra rhagwelwyd gorwariant o ychydig dros £2.3 miliwn ar hyn o bryd, roedd hynny yn bennaf oherwydd gwariant nad oedd wedi ei wario o fewn blwyddyn ariannol 2020/21 o ganlyniad i Covid-19. Galwyd am egluro'n well y rhesymu y tu nol i'r gorwariant a ragwelwyd, a tra derbyniwyd mai 'tanwariant' oedd y term technegol cywir am gyllid nad oedd wedi ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol a glustnodwyd, cytunwyd fod angen darparu mwy o eglurder mewn adroddiadau yn y dyfodol.
Byddai'r adroddiad sefyllfa derfynol olaf yn cynnwys mwy o fanylion a chynigion fod gwasanaethau yn cael caniatâd i gario eu tanwariant ymlaen at bwrpasau penodol. Roedd yn broses agored a thryloyw i'r Cabinet ystyried a ddylent gymeradwyo gallu cario tanwariant gwasanaethau ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf ai peidio.
- Roedd yr Arweinydd yn gefnogol o sefydlu cronfa er mwyn helpu i gyllido gwaith fel rhan o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan, yn enwedig o ystyried y mewnlif disgwylidig o ymwelwyr i'r sir hon, oedd yn amlygu'r angen i fuddsoddi mewn cadw trefi yn daclus ac yn lân a rheoli profiad ymwelwyr mewn lleoliadau cefn gwlad.
Cytunodd y Cynghorydd Brian Jones ac roedd yn teimlo fod angen adolygu'r ymchwydd mewn ymwelwyr yn fanwl er mwyn hwyluso'r broses o reoli hynny yn y dyfodol a sicrhau bod digon o gyllid ar gael i ddelio â phwysau cynyddol dros fisoedd yr haf. Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai'r sefyllfa yn cael ei monitro

a phe byddai pwysau'n dod i'r amlwg dros y misoedd nesaf y byddai'n bosib y byddai angen adolygu'r swm a ddarparwyd at y diben hwnnw.

- Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Meirick Davies, rhoddodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Cyllid fwy o eglurder am gynllun Ysgol Llanfair a sicrwydd y byddai buddiannau'r cyngor yn cael eu gwarchod fel rhan o'r cytundeb cyfreithiol; o safbwynt budd unrhyw werthiant yn y dyfodol cytunwyd edrych i'r mater ac adrodd yn ôl yn uniongyrchol i'r Cynghorydd Davies ynglŷn â hynny.

Roedd trafodaethau am hen safle'r ysgol yn parhau gyda'r Cyngor Cymuned ynglŷn â defnydd y safle, a byddai adroddiad ar hynny yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Rheoli Asedau ym mis Mai. Gofynnodd y Cynghorydd Davies am ddefnydd cyfyngiadau cyflymder o ran y Cynllun Ailfodelu Gwasanaethau Gwastraff a chytunwyd fod y Cynghorydd Brian Jones yn ymateb yn syth y tu allan i'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn –

- (a) *nodir cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2020/21 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni;*
- (b) *Cymeradwyo sefydlu cronfa benodol gan drosglwyddo £200,000 i helpu i ariannu gwaith dros yr haf sydd i ddod fel rhan o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan (a fanylir yn adran 6.3 yr adroddiad), a*
- (c) *cymeradwyo sefydlu cronfa benodol drwy drosglwyddo £59,000 i helpu i ariannu costau cychwynnol prosiect sy'n ymwneud â'r Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio (a fanylir yn adran 6.4 yr adroddiad).*

7 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynwyd blaenraglen waith y Cabinet i'w hystyried, a noddodd aelodau eitem ychwanegol ar gyfer Mai sef ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i dendro'r Fframwaith Cynnal a Chadw Ymatebol ar gyfer Eiddo Ysgolion ac Eiddo nad ydynt yn Ysgolion.

PENDERFYNWYD nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

8 CAM 1 GWAITH GALLUOGI - ESTYNIAD YSTÂD DDIWYDIANNOL COLOMENDY GAN GYNNWYS GORSAF TROSGLWYDDO GWASTRAFF CSDD - DYFARNU CONTRACT

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad cyfrinachol oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract i gyflawni Cam 1 yr estyniad i Ystâd

Ddiwydiannol Colomendy, gan gynnwys Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff (GTG) Cyngor Sir Ddinbych.

Roedd manylion y prosesau a gyflawnwyd yn ystod yr ymarfer caffael yn cael eu manylu yn yr adroddiad gan gynnwys pris a graddfa ansawdd ac amcangyfrif o werth yn arwain at ddewis y contractwr a ffeirir. Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at y dull gweithredu ar y cyd a'r buddion a fyddai hynny yn ei gynnig o safbwynt credu gwaith yn yr ardal ac o safbwynt darparu cyfleusterau o ansawdd uchel i'r cyngor. Talodd deyrnged hefyd i'r Rheolwr Prosiect a'i dîm am y gwaith a wnaed. Aeth Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol a'r Aelod Arweiniol dros Gyllid i fwy o fanylder ynglŷn â'r gost a'r buddion i'r cyngor, a'r broses o adfer costau gan y consortiwm a'r bwriad y byddai'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff yn cynnwys technolegau ecogyfeillgar er mwyn lleihau ei ôl troed carbon.

Croesawodd y Cabinet y cydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat a'r buddion y byddai hynny'n ei gyflwyno i'r ardal. Ar ôl ystyried manylion yr adroddiad, roedd y Cabinet yn fodlon gyda chanlyniad y broses gaffael a'r argymhellion. Diolchodd yr Arweinydd hefyd i'r swyddogion am eu gwaith caled.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn –

- (a) *cymeradwyo dyfarnu'r Contract ar gyfer Gwaith Galluogi Cam 1 – Estyniad Ystâd Ddiwydiannol Colomendy gan gynnwys Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff Cyngor Sir Ddinbych i'r Contractwr a enwir yn yr argymhelliad o fewn yr adroddiad ac yn unol â'r Adroddiad Argymell Dyfarnu Contract (Atodiad 1 yr adroddiad), a*
- (b) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

Cyn cau'r cyfarfod, ac ar gais yr Arweinydd rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau drosolwg o'r sefyllfa gyfredol o safbwynt Covid-19. Yn gyffredinol roedd y darlun ar draws Cymru yn gwella, heb unrhyw frigiad mawr o achosion. Dim ond pump achos positif a gofnodwyd yn Sir Ddinbych dros y pum niwrnod diwethaf gyda cyfartaledd treigl saith diwrnod o 5.2 achos fesul 100,000 o boblogaeth, o'i gymharu â chyfartaledd cyffredinol Cymru o 12.2 fesul 100,000 o boblogaeth. Roedd trafodaethau ar lefel cenedlaethol yn mynd rhagddynt ynglŷn â thrydydd ton, er nad oedd disgwyl i hynny olygu y byddai'r un nifer o bobl angen gofal ysbyty brys nac o bosib yn marw o ganlyniad i Covid-19, oherwydd y rhaglen frechu.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10am.